

Beth yw ystyr dysgu yng Nghymru? - Adroddiad adfyfyriol o sut a pham mae eich credoau personol am addysg wedi cael eu dylanwadu gan eich dealltwriaeth o addysg yng Nghymru a'r dystiolaeth sydd gennych o sut mae ysgolion yn cydweithio gyda'u cymunedau lleol.

Mae'r byd addysg yn gallu fod caeedig iawn ac nid ydy pobl tu allan o'r proffesiwn o reidrwydd yn deall beth mae'n golygu i fod yn addysgwr. Felly mae'n rhwydd iawn i ddatblygu i ragdybiaethau hyd yn oed os ydych yn athro/athrawes brofiadol. Mae gwneud rhagdybiaethau am ddisgyblion yn gallu fod yn niweidiol iawn i'w haddysg. Un o'r rhagdybiaethau mwyaf cyffredin wrth addysgu i'w tybio y dylai ddisgybl/ddisgyblion deall cynnwys y wers. Dywed Pollard yn ei lyfr 'Reflective Teaching in Schools' ‘

Assumptions about what pupils can achieve inevitably affect learning outcomes.’
(Pollard, 2014).

Mae'n hefyd yn gyffredin i wneud rhagdybiaethau am allu plant wrth edrych ar aelodau o'i theulu pe bai yn rhieni, brodydd neu chwiorydd. Mae hyn yn gallu fod yn niweidiol iawn i addysg plentyn oherwydd rydym wedi cymryd yn ganiataol gallu'r plentyn.

‘We Limit Their Potential: Our students have potential beyond what we can see. Sometimes we let our experience limit our perceptions of their potential.’ (Stanfield, 2020).

Fel addysgwyr mae ein rhagdybiaeth ac ein canfyddiadau yn gallu cael effaith sylweddol ar ymddygiad a chanlyniadau. Mae'r seicolegydd Rosenthal yn sôn am yr effaith yma ac yna eu galw yn effaith pygmalion. Mae canfyddiadau person am allu neu ymddygiad person arall yn dylanwadu ar ymddygiad y person yna.

‘The phenomenon whereby one persons expectations of another persons behaviour comes to serve as a self fulfilling prophecy.’ (Dov, 2000)

Mae'n bwysig fel addysgwyr ein bod yn osgoi rhagdybiaethau. Credau Pollard y ffordd gorau o wneud hyn oedd cymryd yr amser i adlewyrchu beth sydd yn gweithio gyda'r disgybl a beth sydd wedi methu, ac yna gofyn i aelod o staff arall am ei farn nhw.

“We need others to help us challenge our own perceptions and move past them.” (Pollard, 2014).

Cyn dechrau ar y cwrs yma a chyn cael profiadau gwerthfawr tu fewn i'r ysgol (fel darpar athro) roeddwn i yn euog o rhai rhagdybiaethau.

1. Nid oes angen defnyddio llawer o TGCh neu ddatblygu sgiliau o'r Fframwaith cymhwysedd digidol yn y cyfnod Sylfaen.
2. Nid oes angen cymaint o gynllunio yn y cyfnod sylfaen oherwydd Mae'r dysgu yn digwydd trwy chwarae ar hap heb ei gynllunio.
3. Y bod pob plentyn yn ymddwyn ac ymateb i dasg neu destun yn yr un ffordd.

Roeddwn wedi seilio'r rhagdybiaethau yma o'n profiad personol o ysgol gynradd ac yr hyn roeddwn wedi clywed a gweld ar yn y cyfryngau, nid oedden o reidrwydd wedi ei seilio ar lawer o ffeithiau. Mae'n bwysig ein bod yn gallu adnabod o le mae ein rhagdybiaethau yn dod a sut maent yn cael ei ffurfio er mwyn gallu ei chywiro.

Nid oes angen defnyddio llawer o TGCh neu ddatblygu sgiliau o'r Fframwaith cymhwysedd digidol yn y cyfnod Sylfaen.

Mae gan TGCh rhan fawr i chwarae yn y cyfnod sylfaen yn enwedig odan gofynion y cwricwlwm newydd (Cwricwlwm i Gymru) ac mae yna lawer o ysgolion sydd yn gwneud defnydd da o dechnoleg yn y cyfnod sylfaen. Gan fod technoleg yn chwarae rôl mor flaengar yn y gweithlu modern ac yn y gymdeithas mae'n bwysig sicrhau fod gan ein disgyblion y sgiliau digidol angenrheidiol.

'We live in an increasingly technological age and have decided to to embrace this as a means to involve parent and carers more fully in their childs development.' (ESTYN, 2019).

Gyda chyfryngau cymdeithasol yn chwarae rôl mor flaengar yn ein bywydau pob dydd mae ysgolion yn dechrau adnabod eu defnydd yn addysg. Mae defnyddio cyfryngau sydd wedi creu ar gyfer addysg megis 'Seesaw' yn galluogi i rieni gweld yr hyn mae eu plant yn gwneud yn y dosbarth. Mae Seesaw yn ffordd o ddisgyblion i rannu eu gwaith ar lein ac felly datblygu dealltwriaeth o'r cyfryngau cymdeithasol a beth sy'n addas iw rannu ar y wê. Mae pwyslais Donaldson a'r cwricwlwm newydd ar ddatblygu sgiliau digidol trosglwyddadwy a ddysgu plant sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol. Mae defnydd yr ysgolion o'r adnoddau Hwb a J2e yn rhoi cyfle i ddisgyblion datblygu sgiliau megis creu dogfennau ysgrifenedig a graffiau yn ogystal ag ymchwilio gan ddefnyddio Encyclopedia Britannica a llawer fwy. Mae rhain yn sgiliau holl bwysig ar

gyfer y byd gwaith ac mae datblygu'r sgiliau yma yn gynnar yn sicrhau eu fod eu dealltwriaeth o dechnoleg yn fwy cyfwys a gellir trosglwyddo'r sgiliau craidd yma o un meddalwedd i'r llall ac i'r dechnoleg newydd, gan ein bod yn byw mewn byd lle mae technoleg yn datblygu mor gyflym nid oes llawer o werth i ddysgu ein disgyblion i ddefnyddio rhaglen/meddalwedd penodol yn hytrach rhaid datblygu sgiliau digidol trosglwyddadwy.

Mae adnoddau megis iPads a byrddau gwyn rhyngweithiol hefyd yn gallu fod o fudd enfawr yn y cyfnod sylfaen. Mae defnyddio adnoddau fel hyn yn medru denu diddordeb disgyblion yn enwedig wrth weithio fel grŵp dosbarth cyfan.

The IWB [interactive white board] was used very effectively in a year 1 class. The teacher was consolidating the childrens understanding of initial sounds and reinforcing their knowledge of upper and lower case letters..... The children manipulated graphics on screen and then joined linking lines to match upper and lower case letters..... The children, especially the boys, were engaged throughout; they responded to the moving stimuli and enjoyed recording their own efforts on screen.' (Grigg, 2015)

Mae hefyd pwyslais yn cynnwys elfennau TGCh yn heriau annibynnol tu fewn i wers. Mae heriau fel chwarae gêm/tynnu llyn ar fwrdd gwyn rhyngweithiol neu ddefnyddio iPads/gemau cyfrifiadur i adolygu ac ymarfer sgiliau yn galluogi disgyblion i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio sgiliau TGCh yn annibynnol.

Er bod llawer o dystiolaeth yn cefnogi pwysigrwydd defnyddio adnoddau digidol yn y Cyfnod sylfaen mae yna rhai sydd yn credu fod technoleg gallu niweidio datblygiad plentyn ifanc. Mae ysgolion Steiner yn enwog am eu hanhoffer o ddefnyddio technoleg yn addysg. Credau Steiner fod technoleg yn creu pellter rhwng y disgybl a'r byd naturiol, Credau dylai addysg digwydd yn y byd naturiol a fod yna llawer o fudd yn gwaredu a thechnoleg. Nid yn unig Steiner sydd o'r farn yma, dywed Esther van Sluijs o brifysgol Caergrawnt yn adroddiad ar ddefnydd technoleg yn addysg;

"Reducing screen time could have important benefits and adds that "limiting the amount of time spent in front of screens and introducing children to a variety of activities is likely to have the most beneficial long-term impacts on a child's health". (Van Sluijs, Yn The Guardian, 2016).

Nid oes angen cymaint o gynllunio yn y cyfnod sylfaen oherwydd Mae'r dysgu yn digwydd trwy chwarae ar hap heb ei gynllunio.

Un o'n rhagdybiau roedd fod yna diffyg o gynllunio yn y C.S a bod dysgu trwy chwarae yn digwydd ar hap. Ar ôl cael profiad o addysgu yn y Cyfnod sylfaen rwyf wedi sylweddoli pa mor drylwyr mae athrawon y C.S yn cynllunio er mwyn sicrhau fod disgyblion yn cael y profiadau sydd angen a bod chwarae yn ffordd hynod o effeithiol o greu'r profiadau yma a dylai athrawon cynllunio i sicrhau fod plentyn yn cael y cyfleoedd gwerthfawr yma. Mae Brock yn disgrifio dysgu trwy chwarae fel:

A dynamic, active and constructive behaviour. An essential and integral part of all childrens healthy growth, development and learning across all ages domains and cultures.' (Brock et al, 2009)

Yn ogystal â sicrhau cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu gwerthfawr mae rhaid sicrhau ein bod yn cynllunio yn ofalus ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan ddisgyblion ac ystyried unrhyw rwystrau sydd gan y plentyn all effeithio ar y gweithgaredd. Efallai mai disgyblion a nam corfforol yn gweld ymuno yn chwarae arferol yn anodd ac felly fydd rhaid cynllunio er mwyn sicrhau fod ganddyn nhw fynediad i'r gweithgaredd.

Ar ôl ymdrin â llenyddiaeth yn y coleg rwyf wedi dod i werthfawrogi pwysigrwydd y Gymuned yn cynllunio'r cwricwlwm. Yn yr Eidal mae ardal Reggio Emilia wedi creu system addysg gynnar (Cyfnod Sylfaen) sydd yn cynnwys y gymuned gyfan ac mae rhoi'r plentyn unigol fel canolbwynt y gynllunio ac yn sicrhau fod y disgyblion yn dysgu am yr hyn sydd yn ei diddori. 'Each child is unique and the protagonist of his or her growth' (anhysbys).

Er bod cynllunio yn rhan hollol allweddol i addysg yn y Cyfnod Sylfaen fel y mae yn pob oedran/maes dysgu mae yna rhai adegau lle mae dysgu yn gallu digwydd heb gynllunio yn enwedig trwy chwarae yn amser rhydd/amser egwyl. Mae'r athronydd Bruce yn credu fod chwarae yn adeg lle all ddisgyblion ymarfer ar hyn maent wedi dysgu a ni ddylai oedolion amharu na cheisio arwain y chwarae hwn yn hytrach i adael y chwarae i ddigwydd yn naturiol.

Y bod pob plentyn yn ymddwyn ac ymateb i dasg neu destun yn yr un ffordd.

Rhaid cofio fod pob plentyn yn wahanol yn ogystal â hyn mae'r gred fod plant yn meddwl yn yr un ffordd ag oedolion yn hollol anghywir, mae plant yn enwedig plant ifanc

yn proesi, rhesymi ac yn meddwl yn ffordd wahanol iawn i oedolion a gall credu gwrtherbyn i effeithiol yn negyddol ar effeithiolrwydd y dysgu. Fel darpar athrawon dylen gymryd yr amser i geisio dull sut mae plentyn unigol yn meddwl er mwyn deall ei ymddygiad. Yn ogystal â hyn rhaid bod cofio fod rhai plant ADY (anghenion dysgu ychwanegol) yn meddwl ac ymddwyn yn ffordd hollol wahanol i'w gyfoedion.

Mae Estyn yn nodi fod Ysgol Bro Teifi yn cynllunio gan geisio adnabod anghenion pob unigolyn ac yna creu gwersi sydd ymateb i hyn. Mae teilwra'r addysg i anghenion y disgyblion yn allweddol i addysgu da, er mwyn gallu datblygu sgiliau pob plentyn rhaid adnabod sut maent yn dysgu. Mae llawer o athrawon yn defnyddio model V.A.R.K (sef Visual, Auditory, Reading/ Writing, a Kinesthetics) Fleming i ddarganfod sut mae disgyblion unigol yn dysgu orau ac yna yn cynllunio ar eu cyfer. Er hyn, mae rhaid nodi nid oes llawer o ymchwil wedi cael eu gwneud i gefnogi'r hyn mae Fleming yn awgrymu. Mae adnabod yn wahanol ffyrdd mae disgyblion yn dysgu a sut mae plant yn meddwl ac ymddwyn (gan ystyried ADY) yn rhan allweddol o addysgu da oherwydd mae'n golygu fod athrawon yn gallu cynllunio yn well ar gyfer pob unigolyn yn y dosbarth a sicrhau tegwch fod pob plentyn yn cael y cyfle orau i ddysgu.

‘Pwysleisir pwysigrwydd cyfleoedd cyfartal gan lawer un sydd yn ysgrifennu ym maes darpariaeth plentyndod cynnar.’ (Wyn Siencyn, 2008)

Clo.

Ar ôl edrych ac asesu fy rhagdybiaethau rwyf wedi defnyddio'r safonau SAC newydd er mwyn creu targedau datblygiad proffesiynol y byddaf yn defnyddio er mwyn sicrhau nad wyf yn parhau ag arferion gwael oherwydd y rhagdybiaethau yma.

1. Nid oes angen defnyddio llawer o TGCh neu datblygu sgiliau o'r Fframwaith cymhwysedd digidol yn y cyfnod Sylfaen.

Targed: Defnyddio technoleg yn drawsgwricwlaidd. Byddaf yn sicrhau fy mod i yn defnyddio technoleg ar draws y cwricwlwm ond hefyd i'w defnyddio mewn ffordd werthfawr sydd yn datblygu sgiliau digidol trosglwyddadwy'r disgyblion.

‘Mae gan y darpar athro wybodaeth ddofn am yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth ddylunio'r cwricwlwm ac arloesi, ac mae'n eu deall ac yn ymwneud â nhw yn gyson. Mae hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu themâu trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i feysydd dysgu ac mae'n gallu cyfiawnhau ei benderfyniadau yn hyderus.’ (Safonau SAC)

2. Nid oes angen cymaint o gynllunio yn y cyfnod sylfaen oherwydd Mae'r dysgu yn digwydd trwy chwarae ar hap heb ei gynllunio.

Targed: Cynllunio yn drylwyr ac yn ofalus. Byddaf yn sicrhau fy mod i yn cynllunio yn ofalus er mwyn creu cyfleoedd da ar gyfer dysgu a hefyd i geisio defnyddio athroniaeth dysgu trwy chwarae lle mae'n briodol. Hefyd byddaf yn sicrhau fy mod i yn gwahaniaethu'r gwaith yn ôl gallu'r disgyblion ond hefyd sicrhau fy mod i yn ystyried unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y disgyblion.

'Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth gadarn am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth gadarn o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae wedi ymrwymo i sicrhau mai'r pedwar diben sy'n llywio profiadau dysgu.' (Safonau SAC)

3. Y fod pob plentyn yn ymddwyn a ymateb i tasg neu testun yn yr un ffordd.

Targed: Creu amgylchedd dysgu. Byddaf yn sicrhau fy mod i yn creu amgylchedd dysgu sydd yn gymwysedig ac yn bodloni anghenion pob disgybl. Hefyd byddaf yn sicrhau creu amgylchedd sydd yn medru hwyluso'r dysgu a gallu'r disgyblion i ddatblygu.

'Mae gan y darpar athro ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y gwaith o hyrwyddo arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n cyd-fynd â'r pedwar diben ac y mae dysgwyr yn eu deall yn y cyd-destun hwnnw. Mae felly'n mynd ati i'w sefydlu a'i reoli'n effeithiol iawn ac yn barhaus.' (Safonau SAC)

Cyfeirnod:

- Brock, Avril, Pam Jarvis, and Yinka Olusoga. *Perspectives on Play : Learning for Life*. Second ed. 2014. Print.
- Davidson, Oranit B. "Remedial Self-fulfilling Prophecy: Two Field Experiments to Prevent Golem Effects among Disadvantaged Women." *Journal of Applied Psychology* 85.3 (2000): 386-99.
- Donaldson, G (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru' Llywodraeth Cymru, Caerdydd

- ESTYN, 2020. *Involving Parents In Education | Estyn*. [online] (<https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/involving-parents-education>) [mynediad: 15 July 2020]
- Grigg, Russell. *Becoming an Outstanding Primary School Teacher*. Second ed. 2015. Print.
- Pollard, Andrew, and Julie. Anderson. *Reflective Teaching : Evidence-informed Professional Practice*. 3rd ed. London: Continuum, 2008. Print.
- Siencyn, and Siencyn, Sian Wyn. *Y Plentyn Bach : Cyflwyniad I Astudiaethau Plentyndod Cynnar*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg Y Drindod, 2008. Print.
- Stanfield, James. 2016. *Why It Is Important To Avoid Assumptions As A Teacher*. [online] Stanfield.com. Available at: <<https://stanfield.com/avoid-assumptions-teacher/>> [mynediad: 15 Gorffennaf 2020].
- (Van Sluijs, Esther, Yn The Guardian, 2016). Manzoor, S., 2016. *Could Steiner Schools Have A Point On Children, Tablets And Tech?*. [online] the Guardian. Available at: <<https://www.theguardian.com/education/2016/jun/14/steiner-schools-children-tablets-tech>> [Accessed 17 July 2020].
- Yr Athrofa, 2019, *Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth Tystiolaeth ac asesu ar gyfer dyfarnu SAC 2019-2020 Cyhoeddiadau*, Caerfyrddin Coleg Y Drindod.